Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 12, 2019 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Simon Evans, Elfed ap Gomer, Llinos Williams, Gethin Williams, Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, John Hughes.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Geraint Rowlands yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.a. (Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd a Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau).

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.a. (Theatr y Ddraig a Chanolfan Gymunedol Abermaw) ac Eitem 7.a.iii.

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.a. (Cymdeithas Y Dydd).

Roedd Llinos Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.a. (Canolfan y Pentref Llanelltyd (cyfraniad tuag at 'defibulator')).

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 8, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 8, 2019

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Yr Elusen Amaethyddol Frenhinol (RABI Meirionnydd); Canolfan Therapi Bobath Cymru; Meithrinfa Seren Fach, Brithdir; Cymdeithas Y Dydd; Canolfan y Pentref Llanelltyd (cyfraniad tuag at 'defibulator'); Dawns i Bawb; Cwmni Theatr Bara Caws Cyf; Calonnau Cymru; Theatr y Ddraig a Chanolfan Gymunedol Abermaw (angen £450), Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, Tenovous Gofal Canser, Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

Mewn llythyr (30/11/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2018-19. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 £7.86, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.86 x 378 = £2,971.08.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol::

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a Môn - £100
Ambiwlans Awyr Cymru - £100
Cymdeithas Y Dydd - £50
Rhoddwyd £100 i Tîm Achub 'Y Dydd' yn cyfarfod Gorffennaf 10, 2018.
Ysgol Feithrin Dolgellau - £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Cwmni Theatr Bar Caws Cyf - £50
Theatr y Ddraig a Chanolfan Gymunedol Abermaw - £50

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Bentref Bontddu: - £400
Neuadd Bentref Llanelltyd - £600 (y rhodd yn cynwys cyfraniad tuag at 'defibulatot')

Cyfanswm: £1,550

Mae manylion yr Adrannau yn Gofnodion Tachwedd 13, 2018.

b Derbyniwyd (28/1/2019) £175.00 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Ian Charles Walker. Claddu gweddillion o'r amlosgfa.

c. Derbyniwyd (4/2/2019) £750.00 oddi wrth D.H. Gabriel. Taliad at Jean Violet Lowmass. Claddedigaeth bellach.

ch. Bil (5/2/2019) am £108.37 oddi wrth Dŵr Cymru at wasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 11 Awst 18 – 4 Chwefror 19. Mae'n cael ei dalu drwy DD. Llynedd roedd y taliad yn £116.67.

d. Bil (11/2/2019) am £75.00 oddi wrth John A. Owen am gladdu llwch ar gyfer gwasanaeth 28/1/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Bil (11/2/2019) am £400.00 oddi wrth John A. Owen am ail agor bedd ar gyfer gwasanaeth 11/2/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Bil (16/1/2019) am £62.40 oddi wrth G.W. Jones am dorri gwrych y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2019: £8,285.96.

f. Gwariant sy'n debygol am weddill y flwyddynn gan ddefnyddio ffigyrau 13/02/2018 – 31/03/2018 fydd £2,192.657. Mae £2,192.67 < £8,285.96 felly nid oes risg o gorwario.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (17/1/2019) oddi wrth Mrs Sally Kerkhoff (gweler Cofnodion Rhagfyr 11, 2018 Eitem 6.a.). Mae hi a'i gwr eisiau prynu bedd newydd wrth bedd Patricia Jean Corry i gymrud 6 gasged (rhoddwyd gwybod iddynt mae'n iawn gwneud hyn). Maent yn holi os mae'n iawn iddynt talu nawr am y plot ac ei gadw.

Maent yn holi os dylent gysylltu â Gwaith Cerrig Canolbarth Cymru, Llanbrynmair a thalu am y garreg fedd bydd yn union yr un fath a cherrig beddi'r teulu.

Y gost heddiw am fedd yw £135.00 (ar gyfer gweddillion amlosgedig) + £175.00 (claddu gweddillion o'r amlosgfa) + 25% (am nid yw'r teulu tu fewn ffiniau'r gymuned) = £387.50. Am 6 gasged y gost fydd £2,325.00.

Ond, i'r cais, nid yw'r Cyngor yn cadw plotiau at y dyfodol. Mae angen eu cywiro nid yw'r fynwent yn y 'Church yard'.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddi nid yw'r Cyngor yn cadw plotiau at y dyfodol, mater iddi hi yw trefnu carreg fedd, a trwy Dilwyn Rees bydd trefniadau yn cael ei wneud.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/356. Adeiladu estyniadau ac newidiadau allanol. Gwynant, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/1/2019).

ii. NP5/65/357. Adeiladu estyniad unllawr/ports ar y blaen. Cwm Mynach Canol, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/1/2019).

iii. NP5/65/335C. Cynllun Trydan-dŵr (34kw) arfaethedig yn cynnwys pibell wedi ei gladdu yn rhanol, adeilad twrbin, all-lif a cysylltiad grid wedi ei gladdu (Ail-Gais). Afon Hirgwm, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

iiii. NP5/65/LB117. Caniatâd Adeilad Rhestredig i estyn mynedfa droed i fynedfa foduron a chreu ffordd newydd o flaen y tŷ, dymchwel y pilar giât a rhan o'r wal derfyn ac ail godi yn union debyg ân debyg hyd y fynedfa newydd ar holl waith perthnasol. Ty'n y Celyn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

b. Llythyr (24/1/2019) yn rhoi gwybod mae'r adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri wedi gael ei gyhoeddi ac mae ar gael yn llyfrgell Dolgellau neu http://www.eryri.llyw.cymru/ldp Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (2016-2031) yn cael ei fabwysiadu mis Chwefror 2019

Llythyr (11/2/2019) yn rhoi gwybod bod Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) wedi ei fabwysiadu ar 6/2/2019. Mae gwybodaeth ar gael yn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar http://www.eryri.llyw.cymru/ldp

c. Llythyr (5/2/2019) yn rhoi gwahoddiad i ni i fore agoriad yn Neuadd Bentref Llanelltyd rhwng 12.30yp a 2.30yp ar ddydd Mawrth, Mawrth 26. Y mater dan sylw yw prosiect Coedwigaeth Glaw Celtaidd LIFE sydd ymwneud yn bennaf i warchod a gwella statws cadwraethol ein coedlan dderw yn yr ardal er mwyn gwella ansawdd cynefinoedd y coedlannau Amgáu mae posteri yn rhoi gwybod am y digwyddiad.

Rhoddwyd y posteri ar hysbysffyrddau'r gymuned ac yn Neuadd Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/1/2019) oddi wrth Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfle i bobl a sefydliadau Gwynedd fynegi barn ar gynigion Cynyddu Treth Cyngor neu Wireddu mwy o arbedion ariannol. Mae hyn oherwydd sefyllfa arianol y Cyngor a'r canlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus cynhalwyd mis Hydref. Mae holiadur ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/StrategaethAriannol neu yn y llyfrgell neu ganolfan hamdden Dolgellau. Maent angen y wybodaeth cyn Ionawr 31. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (22/1/2019) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i Arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 15 Mai, neu 21 Mai, neu 29 Mai. Os mae diddordeb maent angen gwybod cyn 1/2/2019.

c. Llythyr (21/1/2019) oddi wrth Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. Maent angen cymorth arianol.

ch. Llythyr (21/1/2019) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru gyda gwahoddiad i Ddiwrnod Agored ym Maes Awyr Dinas Dinlle ar 20/2/2019 rhwng 10.00yb–12.00yp neu 1.00yp-3.00yp. Mae bwffe ar gael a thaliad i'w wneud.

d. Llythyr (29/1/2019) oddi wrth Tenovous Gofal Canser. Maent angen cymorth arianol.

dd. Llythyr (1/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy. Maent angen cymorth arianol.

e. Llythyr (6/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth arianol.

f. Llythyr (2/2019) oddi wrth Pennaeth Strategol, Ysgol Bro Idris yn rhoi gwybod mae angen cynrychiolydd Cymunedol i weithredu ar Gorff Llywodraethu'r ysgol. Mae'r Corff Llywodraethu yn chwilio am enwebiad Cymunedol o ddalgylch Ysgol Bro Idris. Os mae gan Gynghorwr Cymunedol diddordeb maent angen yr enw erbyn Chwefror 28, 2019.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r ysgol nid oes gan y cynghorwyr diddordeb i fod ar Gorff Llywodraethu'r ysgol.

ff. Llythyr (5/2/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Chwefror 20, 2019 am 7.00yh. Bydd cynrychiolydd o Drafnidiaeth Cymru yn bresennol. Amgáu mae Agenda, Cofnodion cyfarfod Tachwedd 28, 2018, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Maes y Sioe Amaethyddol ar Ragfyr 14, 2018.

Anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r aelodau.

g. Adroddiadau derbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (23/1/2019):

1. Rheoli Ariannol a Llywodraeth – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-2018
2. Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

Anfonwyd copi o'r adroddiadau i'r aelodau.

h. Llythyr (7/2/2019) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth arianol.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Anfonwyd llythyr (10/1/2019) i Swyddog Cyngor Gwynedd yn holi beth yw'r diweddaraf am drwsio'r ffens wrth y lle parcio yr Ysgol.

Llythyr ateb (10/1/2019) oddi wrth Adrian Wyn Williams, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y ffens yn cael ei drwsio yn yr wythnos 14/1/2019.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Anfonwyd llythyr (10/1/2019) i Swyddog Cyngor Gwynedd yn holi beth yw'r diweddaraf ynglŷn â'r llinellau melyn wrth Pont Wnin.

Llythyr (23/1/2019) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda Rhybuddion Cyhoeddus yn gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd wrth Pont Wnin. Bydd dim aros ar unrhyw adeg. Os mae gwrthwynebiad maent ei angen cyn Chwefror 22, 2019.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

c. Anfonwyd llythyr (10/1/2019) i Swyddog Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am gyfarfod ynglŷn â goryrru yn Llanelltyd.

ch. Anfonwyd llythyr (28/1/2019) i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt ei fod yn anfodlon gyda'r trefniant i Adran Fwrdeistrefol i sgubo dail o'r ffyrdd gwledig oherwydd nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud ers mis Hydref gan achosi'r ffyrdd fod yn beryglus. Awgrymwyd i'r gwaith cael ei wneud gan Adran Priffyrdd achos y nhw sy'n cynnal a chadw'r ffyrdd.

Llythyr ateb (31/1/2019) yn rhoi gwybod bydd sylw yn cael ei roi i'r mater.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Ivor Thompson (Gwasanaethau Tir a Choed) am amcan bris i glirio coed sydd wedi disgyn dros lwybr yn y goedwig rhwng Cae Beudy a Llyn Tan y Graig, Llanelltyd.
Hefyd amcan bris am glirio coeden sydd wedi disgyn ar gamfa ar dir Ty'n Cornel, Botnddu; mae'r gamfa tu nol i sied.
Iddo gysylltu â Gary Ellis (rhif ffôn 078 828 848 47) am fwy o wybodaeth.